

Gwelodd y dau-ddegau hefyd gyhoeddi pedair cyfrol arall o'i eiddo, yn brawf o'i ddi-ddordeb dwfn yn hanes yr Unol Daleithau, yn enwedig hanes Rhyfel Annibyniaeth y ddeunawfed ganrif:

*The Journal of Alexander Chesney, a Carolina Loyalist; Ohio University, 1921. American Members of the Inns of Court; Llundain, 1924. (Rhgair gan W.H. Taft, cyn-Arlywydd yr Unol Daleithiau).*

*The Loyalists of New Jersey; Newark, 1927.*

*The Loyalists of Massachusetts; Llundain, 1930.*

Yn 1931 dychwelodd Alfred Jones i Gaergrawnt i baratoi'r catalog ar gyfer arddangosfa o lestri aur ac arian y brifysgol yno yn orielau newydd Amgueddfa Fitzwilliam. Ymddengys y bu'r arddangosfa yn ddigwyddiad hynod yn hanes y dref a'r brifysgol.

Treuliodd y ddegawd olaf o'i fywyd yn trefnu cyfres o gatalogau nodedig o gasgliadau o lestri aur ac arian yn Lloegr, gan ganolbwyntio'n arbennig ar eiddo 13 o golegau Caergrawnt a Rhydychen, ar wahân i'r rhai canlynol:

*Catalogue of the Plate of the Duke of Devonshire (argraffiad preifat)*

*Illustrated Catalogue of the Duke of Portland's Plate at Welbeck Abbey; 1935 (£50 1980/1)*

*The Plate of Eton College; Llundain, 1938*

*The Plate of St. George's Chapel, Windsor Castle; Llundain, 1939.*

*Some Silver wrought by the Courtauld Family of London Goldsmiths in the Eighteenth Century; 1940*

\* \* \*

ER GWYCHDER y prawf yn y rhestrau uchod o ysgolheictod a thrylwyredd Alfred Jones y mae gennyf deimlad y gellir darganfod rhagor o'i gyfrolau unigol. O ddi-ddordeb neilltuol i gasglwyr y mae gwerth cynyddol ar gyfrolau Alfred Jones a nodais y prisiau diweddaraf a dalwyd mewn arwerthiannau (er enghraifft, £100 1979/80 ar gyfer eiddo Ymerawdwr Rwsia.

Ar wahân i'r rhai a nodwyd ni welais gyfeiriad at y gweddill o'r cyfrolau yn ystod y ddegawd ddiwethaf. Gallent fod yn werthfawr.

Y mae'n resyn, mewn ffordd, nad oes llyfryddiaeth lawn o gyfraniadau Alfred Jones oblegid yma a thraw ceir llawer o ddi-ddordeb arbennig i Gymru. Gwaith cymharol hawdd yw eu holrhain yn Y Cymmrodor ac *Archaeologia Cambrensis* ond er enghraifft, ceir eraill mewn

cylichronau Saesneg megis *The Burlington Magazine* (1907: *Some Old Silver Plate in the Possession of Lord Mostyn*), *The Connoisseur* (1941: *Welsh Goldsmiths*) ac *Apollo* (1943: *A Collector of Works of Art in Wales 100 years ago*).

Gan fod yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhorthmadog eleni y mae'n bwynt o ddi-ddordeb neilltuol mai Alfred Jones a baratodd y catalog ar gyfer yr arddangosfa o lestri eglwysig lleol a ddigwyddodd yno yn 1903. Argraffwyd y cyfryw yn *Archaeologia Cambrensis*, 1904 (tt. 324-8).

Ar wahân i'w gyfrolau fe etholwyd Alfred Jones yn gymrawd gan lawer o gymdeithasau pwysig a dylanwadol, megis Cymdeithas y Celfyddydau (F.S.A.), Y Gymdeithas Hanesyddol Frenhinol (F.R. Hist.S., 1919), Cymdeithas yr Hynafiaethwyr (1929) a Chwmni'r Gofaint Aur (1933).

Yn rhinwedd yr anrhydedd olaf daeth Rhyddfreniaeth Dinas Llundain. Cyflwynwyd gradd M.A. er anrhydedd iddo gan Brifysgolion Caergrawnt a Rhydychen yn ystod y tri-degawd.

Y mae'n ddi-ddorol darllen y rhestr o'i anrhydeddau a'i weithiau yn *Who's Who*, 1943, rhestr, gellir meddwl, a luniwyd gan Alfred Jones ei hun. Ar y brig, o ran pwysigrwydd iddo ef oedd, yn gyntaf, ei aelodaeth o'r Cymmrodorion, ac yn ail ei aelodaeth o Orsedd y Beirdd.

A pheth trist yw sylweddoli, yn wyneb y teyrngarwch hwnnw, na welir enw'r gŵr arbennig iawn hwn ymhlith cloriau'r Bywgraffiadur Cymreig, 1941-1950. Arbenigrwydd yn ei faes a gydnabyddid ar draws y byd yn cael ei anghofio gan ei wlad ei hun.

\* \* \*

BU FARW Alfred Jones yn Llundain 23 Awst 1943. Cafwyd gwasanaeth coffa iddo yng nghapel Coleg Clare, Caergrawnt. Yn nechrau 1943 rhoddwyd pensiwn gwladol iddo, yr un adeg ag y derbyniodd Elfed un. Ar y mwyafrif £200 y flwyddyn oedd hwnnw.

Awgrymwyd gan un o Gaergrawnt a sgrifennodd nodyn i'w goffâu fod y pensiwn hwnnw wedi diogelu Alfred Jones rhag thodi yn ei ddyddiau olaf. Y mae'n anodd credu fod gŵr a fu am dros ddeugain mlynedd yn trafod creiriau amhrisiadwy'r byd hwn heb ddiogelu ei hun ond ymddengys yn ffaith, o dystiolaeth a gefais. O'r America, nad oedd Alfred Jones yn mynnu tâl addas am ei waith: bodlonai, gymaint â dim, ar dderbyn ei dreuliau a chael ei ddigolledu.

Onid prawf o hynny yw'r

fffaith mai £3813 oedd ei werth ariannol ar ôl profi ei ewylllys? Y Mae'n debyg fod pump o lestri arian a roddwyd iddo gan

wahanol sefydliadau yn gynrychiolaeth uchel o'r swm hwnnw. Arall oedd y cyfoeth a adawodd Alfred Jones ar ei ôl.

## Y Ffuretwr Bach

RHYW DRO'N ôl daeth cyfaiil da â darn o bapur rhywedig imi. Darn o bapur ydoedd a fu'n dirgel-guddio mewn drôr ryw gwpwrdd neu'i gilydd. Nid oedd dyddiad arno. A dyna ddechrau gofidiau!

Yn naturiol, roeddwn yn awyddus i gael gafael mewn ychwaneg o wybodaeth:

(a) pwy oedd Richard Roberts, Llundain?

(b) am ba borthladd yn hollol y sonnir?

(c) a oedd modd dyddio'r newyddiadur yr ymddangosodd y penillion ynddo, a gan hynny, gael y penillion yn eu cyfanrwydd?

Dyna anfon i'r Llyfrgell Genedlaethol. SOS truan bach fel myfi!

A dyma beth ddywaid Huw Walters, Llyfrgellydd Cynorthwyol yn Adran y Llyfrau Printedig:

"Ofnaf ei bod yn amhosibl imi eich helpu ynglŷn â'r ddau bennill o waith Richard Roberts. Gallai'r penillion fod wedi eu torri o unrhyw un o'r llau newyddiaduron a gyhoeddwyd yn y gogledd ar ddechrau'r ganrif hon, a thasg anodd a gymerai ddyddiau lawer fuasai chwilio drwy golofnau'r *Genedl* neu'r *Herald*."

Dyna ni ta, amen! Ond diolch rif y gwllith i'r brawd Huw Walters am ateb di-flewyn ar dafod. Onid oes angen mynegeio newyddiaduron ein gwlad? Oes yn sicr. Beth am ddwyn perswâd ar wahanol gyrrff yng Nghymru? Yn sicr, mae angen ecploetio y llau trysorau sydd yn y newyddiaduron.

Mae angen dybryd am well rheolaeth ar ffynonellau. Pregeth amserol braidd yn ddig wrth fynd heibio oedd hon 'na. ond mi wyddoch beth yr wyf yn cyfeirio ato. Rhai da ar y naw am wastraffu amser ac adnoddau ydym ni fel bodau dynol!

Onid arhoswch ennyd, onid oes cefn i'r deryn papur ac ychwaneg o glemau y gellir cyfngu amser a dyddiad? Oes yn wir!

Ys gwn i a oes ryw wag o haneswr yn rywle sydd â gwybodaeth benodol fanwl ynglŷn â gyrfa Lloyd George....? Neu a oes rhywun yn cofio clywed y Parch. R.M. Edmunds yn pregethu ym Mhenlan, Pwllheli?

Pwy oedd Syr Mervyn Lloyd Peel (1886-1929) trydydd mab John Peel, Y.H., Tanyrallt, Llangadog, Sir Gaerfyrddin? Nis gwn, ond mae'r atebion ar gael yn rhywle!

Richard Roberts? Ai hwn oedd y Richard Roberts (1769-1855) a aned yn Nhaltreuddyn, Dyffryn Ardudwy, Meirion? Ai telynor yn cyfansoddi'i eiriau ei hunan i'r tannau ydoedd? Nis gwn yn wir ac eto mae'na un gwirionedd. O'r deryn papur bychan - y penillion anghyflawn - y tyfodd canghennau o wybodaeth. Rhyfedd o fyd. Bywyd rhyfeddol.

### YR HEN SALMAU

At y Golygydd, PARTHED yr ysgrif yn Y *Casglwr* diwethaf ar hen lawysgrif o'r Beibl, dyfynnaf o *Cambrian Mirror*, or a *New Tourist Companion through North Wales*, ail arg. 1848 gan Edward Parry, tud xxiii, *In a curious old manuscript belonging to the Cottorian collection at the British Museum, marked Claudius 8,8, this celebrated speech is preserved in Welsh, with a note showing that it was transcribed from another manuscript, written in the tenth century, in the possession of Roger Mostyn, gentleman, ancestor of Hon. E.M.Ll. Mostyn, in whose possession it still remains, with several others of equal rarity, which he values above the price.*

John Llewelyn Williams, Llanfihangel, Môn.

### RHODDION

Miss H.A. Rees, Caerfyrddin £3.00  
Mr D. Roberts, Pentre-uchaf £1.00  
Mr R. Jones, Llanfairfechan £3.00  
Mrs E.C. Watkins, Porthmadog £2.00  
Miss K.O. Pritchard, Porth £2.00  
Y Fonesig Parry, Bangor £10.00  
P.A.L. Jones, Aberystwyth £1.00  
John Roberts, Y Groeslon £1.00  
Mr W. Hughes, Y Talwrn £1.00  
W.J. Rees, Leeds £18.00  
M. Richards, Caerdydd £5.00  
P.E. Owen, Abergele £1.00  
Mrs A. Hughes, Dolwydelan £0.50  
Mrs E.M. Williams, Bangor £1.00  
I.G. Efans, Deiniolen £3.00  
Mrs E.M. Rees, Lanbedr P.S. £1.00  
Mrs G.L. Carr, Bangor £3.00  
Y Fonesig Parry-Williams, Aberystwyth £5.00